# CYNGOR CYMUNED BETWS

## 2007 05 Mai AGM Cofnodion

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned y Betws, yn Festri Capel Newydd, y Betws ar Ddydd Mercher 9fed o Fai 2007, am 6.15 o'r gloch.

YN BRESENNOL: Cynghorwr O Menna Roberts (Cadeiryddes), Henadur Arnallt James, Cynghorwyr C M Annette Price, Betsan Jones, Keith Rees, Carwyn James, Anne Sizmur, Audrey Jones, Delyth Richards, June Gunter, Loreen Lewis a'r Cynghorwr Sir John D Evans.

1.YMDDIHEURIADAU: Dim.

2. CADARNHAU A LLOFNODI COFNODION Y CYFARFOD BLYNYDDOL A GYNHALIWYD AR 10fed O FAI 2006.
Cadarnhaodd y Cynghorwr Annette Price ac eiliodd y Cynghorwr Carwyn James fod cofnodion y cyfarfod blynyddol a gynhaliwyd ar 10fed o Fai 2006 yn gywir ac fe'u llofnodwyd gan y Gadeiryddes.

3. ANERCHIAD Y GADEIRYDDES.
Cyflwynodd y Gadeiryddes, y Cynghorwr Menna Roberts ei hadroddiad i'r Cynghorwyr, gan roi diolch i'r Is-gadeirydd, y Cynghorwyr a'r Clerc am ei chefnogaeth dros y flwyddyn. Hefyd rhoddodd ddiolch i'r Cynghorwr Keith Rees am helpu gyda'r Cyfarfod Cyhoeddus a hefyd am fod yn bresennol yn y Cyfarfod gyda'r Cyfreithiwr o Gyngor Sir Caerfyrddin.

Dywedodd y Gadeiryddes fod y gwaith yn cychwyn ar Brosiect Parc Y Betws a bod gwaith ar droed ynglyn â'r tir ger Heol Y Felin.

Gorffennodd y Gadeiryddes gan groesawu'r Cynghorwr Betsan Jones i'r Cyngor Cymuned.

4. ADRODDIAD Y CLERC.
Rhoddwyd manylion byr gan y Clerc am waith a chyflawniadau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn 2006/2007.

1. INCWM/GWARIANT
Cyflwynodd y Clerc archwiliad y cyfrifon i'r Cyfarfod am y flwyddyn hyd at y 31ain o Fawrth 2007. Roedd yr Archwiliad Mewnol wedi cael ei gwblhau gan Mr Lyn Llewelyn ac nid oedd unrhyw bwynt i'w nodi. Mae'r Archwiliad Allanol yn i'w gwblhau ar y 10fed o Awst 2007.

Rhoddodd y Clerc amlinelliad byr o fater ariannol y Cyngor a gwahoddwyd y Cynghorwyr i Archwilio'r gyfriflen banc a'r c cyfriflyfr.

2. CEISIADAU CYNLLUNIO.
Roedd 30 cais wedi'u derbyn a 29 wedi'u cwblhau.
3. RHODDION.
Roedd 22 mudiad, Capel Newydd ac Eglwys Dewi Sant wedi cael rhoddion o £2357.50.

4. PERSONÉL.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr fod y Cynghorwr Peter Cowell nawr wedi ymddeol o'r Cyngor Cymuned. Mae hi wedi gwneud ymholiadau gyda Chyngor Sir Caerfyrddin ynglyn â swydd wag Cynghorydd. Bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn danfon hysbysiadau yn union. NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

Gorffennodd y Clerc gan roi diolch i'r Gadeiryddes a'r Cynghorwyr am eu cefnogaeth dros y

flwyddyn ddiwethaf.

5.PENODI CADEIRYDD/CADEIRYDDES
Cynigiodd y Cynghorwr Anne Sizmur ac eiliodd y Cynghorwr Annette Price fod y Cynghorwr Carwyn James yn gweithredu fel Cadeirydd am yn flwyddyn 2007/2008. Cytunodd y Cynghorwyr.
PENDERFYNWYD bod y Cynghorwr Carwyn James yn Gadeirydd am 2007/2008.
Gwnaeth ddatganiad a llofnododd y 'Datganiad wrth Dderbyn Swydd.'

6.PENODI IS-GADEIRYDD/IS-GADEIRYDD.
Cynigiodd y Cynghorwr Delyth Richards ac eiliodd y Cynghorwr Betsan Jones fod y Cynghorwr Annette Price yn gweithredu fel Is-gadeirydd am y flwyddyn 2007/2008. Cytunodd y Cynghorwyr.
PENDERFYNWYD bod y Cynghorwr Annette Price yn Is-gadeirydd am 2007/2008.
Gwnaeth ddatganiad a llofnododd y 'Datganiad wrth Dderbyn Swydd.'

7.PENODI IS BWYLLGORAU.
1.CYNLLUNIO.
Cynigwyd ac eiliwyd bod y Cadeirydd, yr Is Gadeiryddes, y Cynghorwyr June Gunter, E Audrey Jones a Loreen Lewis yn cael eu hethol unwaith eto.
PENDERFYNWYD felly.

2. CYLLID.
Cynigwyd ac eiliwyd bod y Cynghorwyr Carwyn James, Delyth Richards a C.M.Annette Price yn cael eu hethol unwaith eto.
PENDERFYNWYD felly.

3. BETWS YN EI BLODAU.
Cynigwyd ac eiliwyd bod y Cynghorwyr Anne Sizmur, Arnallt James a Mr Bryan Lewis yn cael eu hethol unwaith eto.
PENDERFYNWYD felly.

Dywedodd y Cynghorwr Anne Sizmur ei bod hi am i Gynghorwr arall gymryd at drefnu'r Gystadleuaeth Betws yn ei Blodau am 2008/2009. Awgrymodd y Cynghorwr Annette Price ac eiliodd y Cynghorwr Anne Sizmur fod y Cynghorwr Loreen Lewis yn cael ei hethol fel trefnydd Cystadleuaeth Betws yn ei Blodau am 2008/2009. Cytunodd y Cynghorwyr.
PENDERFYNWYD bod y Cynghorwr Loreen Lewis yn cael ei hethol fel trefnydd Cystadleuaeth Betws yn ei Blodau 2008/2009.

4. PROSIECTAU.
Cynigwyd ac eiliwyd bod y Cadeirydd a'r Cynghorwyr Arnallt James, Loreen Lewis, Annette Price, Anne Sizmur a Menna Roberts yn cael eu hethol unwaith eto.
PENDERFYNWYD felly.

5. IAWNDERAU FFYRDD.
Cynigwyd ac eiliwyd bod y Cynghorwyr Keith Rees ac Arnallt James yn cael eu hethol.
PENDERFYNWYD felly.

8.CYNRYCHIOLWYR I WASANAETHU AR GYMDEITHASAU ALLANOL.
Penderfynwyd fel a ganlyn:-

1. Heddlu Dyfed Powys; Pwyllgor Ymgynghorol Cymuned Dinefwr.
Cynghorwyr E Audrey Jones, Delyth Richards a Betsan Jones.

2 .LIG.
Y Cadeirydd a'r Cynghorwr Loreen Lewis.

3. Canolfan Teuluol Betws.
Y Cadeirydd, y Cynghorwyr C M Annette Price, Loreen Lewis a Delyth Richards fel dirprwy.

4. Grwp Cynghorau Lleol Dyffryn Aman.
Y Cadeirydd a'r Cynghorwr Anne Sizmur.

5. Canolfan Gynghori Dyffryn Aman.
Y Cynghorwr Annette Price.

6. Un Llais i Gymru.
Y Cadeirydd a'r Cynghorwr Anne Sizmur a Menna Roberts.

9. LWFANS Y CADEIRYDD
Dywedodd y Cynghorwr Menna Roberts fel Cadeiryddes roedd hi am ddefnyddio mwy o'i lwfans dros y Nadolig. Awgrymodd y Cynghorwr Anne Sizmur ac eiliodd y Cynghorwr Annette Price fod lwfans y Cadeirydd yn cael ei dalu mewn dau randal o £250 ac wedyn £50. Awgrymodd y Cynghorwr Delyth Richards ac eiliodd y Cynghorwr Betsan Jones fod £200 yn cael ei dalu i'r Cadeirydd newydd yn y Cyfarfod Misol ym mis Mai ac wedyn fod £100 yn cael ei dalu i'r Cadeirydd yn y Cyfarfod Misol ym mis Ionawr. PENDERFYNODD y Cynghorwyr fod £200 yn cael ei dalu i'r Cadeirydd newydd yn y Cyfarfod Misol ym mis Mai ac wedyn Bod £100 yn cael ei dalu i'r Cadeirydd yn y Cyfarfod Misol ym mis Ionawr.

Gorffennodd y Cyfarfod am 6.45 yr hwyr.